Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Brynhelyg**

**64 Heol Cwmfelin**
**Llanelli**
**SA14 9LR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Brynhelyg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Ovalbeech Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13/04/2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn gadarnhaol am y gofal y maent yn ei gael. Cânt eu cefnogi gan dîm o staff ymroddedig sy'n eu deall. Fodd bynnag, nid yw'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal ac ni chaiff y cofnodion gofal eu hadolygu na'u diweddaru o fewn yr amserlenni gofynnol. Codwyd hyn yn ystod yr arolygiad diwethaf; felly, cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Ni all y bobl fod yn dawel eu meddwl bod gan yr Unigolyn Cyfrifol drosolwg digonol o'r gwasanaeth na bod trefniadau goruchwylio digonol ar waith ganddo, gan nad yw wedi cynnal ymweliad Rheoliad 73 ers mis Hydref 2022. At hynny, nid yw'r rheolwr na'r tîm o staff wedi cael sesiynau goruchwylio rheolaidd nac arfarniad blynyddol. Mae Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi cael ei gyhoeddi mewn perthynas â'r mater hwn.

Nid yw'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant. Nodwyd bod yr amgylchedd yn Faes i'w Wella yn yr arolygiad diwethaf. Mae safonau glendid a threfniadau cynnal a chadw'r amgylchedd yn parhau i beri pryder.  At hynny, nid yw'r lolfa gymunedol yn hygyrch i'r bobl, sy'n cyfyngu ar y dewis sydd ar gael iddynt o ran cwrdd a chymdeithasu. Mae Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi cael ei gyhoeddi mewn perthynas â'r mater hwn.

## Llesiant

Mae'r bobl yn wynebu risg o niwed. Er bod y gweithwyr gofal yn dangos dealltwriaeth o anghenion y bobl, nid yw'r cofnodion gofal yn cael eu hadolygu na'u diweddaru i adlewyrchu anghenion gofal a chymorth presennol yr unigolion. Mae sawl ardal yn y gwasanaeth yn fudr ac yn llychlyd ac mae angen eu glanhau, eu hailaddurno a'u gwella. Hefyd, nid oes gan yr Unigolyn Cyfrifol drosolwg digonol o'r gwasanaeth ac nid yw'n goruchwylio'r gwasanaeth yn ddigonol. Mae gweithdrefnau recriwtio da ar waith, ond nid yw'r staff na'r rheolwr wedi cael sesiynau goruchwylio rheolaidd wedi'u dogfennu nac arfarniad blynyddol.

Nid yw'r gwasanaeth bob amser yn gofyn am ddewisiadau a barn y bobl nac yn eu cydnabod. Nid yw'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Nid yw'r ail lolfa yn hygyrch, sy'n atal y bobl rhag gallu cwrdd a chymdeithasu mewn ardal o'u dewis. Gall y bobl godi a mynd i'w hystafelloedd pan fyddant am wneud hynny, gallant bersonoli eu hystafelloedd gwely ac mae opsiynau dyddiol ar gael iddynt o ran y fwydlen.

Caiff y bobl eu trin â pharch. Mae'r gweithwyr gofal yn cnocio ar ddrysau ystafelloedd gwely'r bobl cyn mynd i mewn. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd cyfeillgar a gofalgar ac yn eu dewis iaith, gan i ni glywed pobl yn sgwrsio yn Gymraeg.

## Gofal a Chymorth

Ni all y bobl fod yn dawel eu meddwl y byddant yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion. Yn ystod yr arolygiad a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2022, nodwyd nad oedd y cofnodion gofal yn cael eu diweddaru i adlewyrchu anghenion gofal a chymorth y bobl yn gywir. Nodwyd Maes i'w Wella.

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd nad yw'r cofnodion gofal yn cael eu hadolygu na'u diweddaru o fewn yr amserlenni gofynnol o hyd. O ganlyniad, mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth sydd ynddynt yn gyfredol ac nad yw'n adlewyrchu anghenion gofal a chymorth presennol yr unigolion. Mae hyn yn peri risg o niwed i'r bobl. At hynny, prin oedd y dystiolaeth i ddangos fod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Cadarnhaodd y rheolwr, y dirprwy reolwr ac uwch-ofalwr nad yw'r cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlenni gofynnol. Gan fod hyn yn broblem barhaus, rydym wedi cyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth mewn perthynas â'r mater hwn. Caiff y trefniadau ar gyfer adolygu'r cofnodion gofal a chyfraniad y bobl a/neu eu cynrychiolwyr eu profi yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl a gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth yn canmol y gweithwyr gofal. Gwnaethant ddweud wrthym, "*care staff are very kind and helpful*", *"the care is very good. I think the staff treat the residents like one of their family, they are very kind"* a *"staff are friendly and caring".* Gwelsom y gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd gofalgar a pharchus.

Mae'r bobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae cydgysylltydd gweithgareddau wedi'i gyflogi sy'n gweithio yn ystod y prynhawn, ond nid oes ffotograffau na hysbysiadau i'w gweld o'r digwyddiadau, yr hobïau a'r gweithgareddau y mae'r bobl wedi cymryd rhan ynddynt. Mae cynlluniau ar waith i adfywio'r gweithgareddau, gan gynnwys cynyddu nifer y diddanwyr sy'n ymweld â'r cartref. Ni chedwir cofnod cywir o'r bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau bob mis.

Mae'r cogydd yn ymwybodol o ddewisiadau bwyd ac anghenion penodol unigol y bobl. Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid bwyd o bum seren, gydag amrywiaeth o ddewisiadau dyddiol wedi'u cynnwys ar fwydlenni amrywiol. Dywedodd y bobl wrthym *"the food is excellent"* a *"the choices of meals is great, lots of home cooked food"*. Caiff bwydlenni eu diweddaru'n unol â'r tymor a thrwy ymgynghori â'r bobl.  Ymddengys fod amseroedd bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol a bod y bobl yn eu mwynhau. Cyflwynir prydau bwyd yn dda, ac mae dewisiadau ar gael yn hwylus.

## Yr Amgylchedd

Nid yw'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n hybu eu hiechyd, eu diogelwch a'u llesiant. Tynnwyd sylw at yr amgylchedd fel Maes i'w Wella yn ystod yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2022. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom nodi sawl pryder yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a threfniadau rheoli heintiau. Mae sawl ardal yn y gwasanaeth yn fudr ac yn llychlyd ac mae angen eu glanhau, eu hailaddurno a'u gwella.

Caiff ystafell ymolchi gymunedol ei defnyddio fel stordy. Mae ardaloedd, gan gynnwys y blychau ar gyfer pibellau, yn fudr, mae'r brws toiled wedi torri, mae marciau ar banel y bath ac mae'r ystafell yn anniben ac nid yw'n groesawgar i'r bobl ei defnyddio a mwynhau cael bath.

At hynny, nid yw'r lolfa fach yn hygyrch i'r bobl ei defnyddio i gwrdd â'u teuluoedd, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref ac i gymdeithasu gan ei bod yn cael ei defnyddio fel stordy. Mae'r mater wedi'i nodi fel Maes i'w Wella, a chaiff ei ystyried yn ystod yr arolygiad nesaf.

Er ein bod yn cydnabod bod llawr newydd wedi cael ei osod mewn rhai mannau o'r cartref a bod drysau tân newydd yn cael eu gosod, nid yw'r amgylchedd yn cyrraedd y safon y dylai'r rhai sy'n byw yn y gwasanaeth allu ei disgwyl. Ni wnaeth y bobl y gwnaethom siarad â nhw gwyno am yr amgylchedd ond dywedwyd wrthym y gellid ei wella, gan gynnwys *"it's tired in places, it could do with painting"* ac *"It needs cleaning in places".* Gwnaeth y staff hefyd sylwadau am yr amgylchedd, gan ddweud *"It is in need of a lot of work, it's very poor in places", "It needs a good clean".*

Gwnaethom ddangos yr ardaloedd a oedd yn peri pryder i'r rheolwr wrth gerdded o amgylch y cartref a darparwyd tystiolaeth ffotograffig yn ystod y cyfarfod i roi adborth ar yr arolygiad gyda'r Unigolyn Cyfrifol. Yn ystod trafodaethau â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol, dywedwyd wrthynt er ein bod yn cydnabod bod y gwasanaeth wedi ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff glanhau, nad yw'r safonau glendid na'r trefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr amgylchedd yn dderbyniol. Gan fod y mater hwn yn un sy'n parhau ers yr arolygiad diwethaf, cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth. Caiff cyflwr yr amgylchedd ei ystyried yn ystod yr arolygiad nesaf.

Nid oes llyfr ymwelwyr yn cael ei ddefnyddio i gofnodi'r bobl sy'n cyrraedd ac yn gadael y gwasanaeth. Er bod y rheolwr wedi rhoi rheswm dros hyn, ni roddwyd dull amgen ar waith i gofnodi pawb sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a roddodd sicrwydd i ni y bydd yn ymdrin â'r diffyg hwn.

Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar codi a chario eu gwasanaethu'n rheolaidd, mae cyfyngwyr ffenestri wedi'u gosod lle bo angen a chaiff deunyddiau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ni all y bobl fod yn dawel eu meddwl bod prosesau goruchwylio digonol ar waith yn y gwasanaeth. Er bod yr Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r rheolwr dros y ffôn, nid yw wedi cynnal ymweliadau Rheoliad 73 o fewn yr amserlenni gofynnol. Cydnabyddir bod ymweliad wedi cael ei ganslo o ganlyniad i frigiad o achosion o COVID-19 ym mis Rhagfyr 2022; ond, nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ceisio defnyddio dulliau amgen i fonitro a goruchwylio'r gwasanaeth ers mis Hydref 2022. Mae hyn yn cynnwys cadw llygad ar y cynnydd a wneir i ymdrin â'r ddau Faes i'w Gwella y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr arolygiad diwethaf ym mis Ebrill 2022.

Dywedodd y rheolwr wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol yn cysylltu â hi'n rheolaidd dros y ffôn, ond nad yw wedi cael sesiynau goruchwylio ffurfiol wedi'u dogfennu nac arfarniad blynyddol ers dechrau yn y rôl. Mae'r diffyg trefniadau goruchwylio gan yr Unigolyn Cyfrifol hefyd yn amlwg mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant y bobl a'r materion y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn. O ganlyniad, cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth mewn perthynas â'r materion hyn.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff nad ydynt yn cael eu goruchwylio na'u harfarnu yn eu rolau. Er bod y staff y gwnaethom siarad â nhw yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'i bod yn *“very approachable”,* nid oes unrhyw aelodau o'r staff wedi cael sesiynau goruchwylio rheolaidd nac arfarniad blynyddol. Yn ystod trafodaethau â'r rheolwr, dywedodd wrthym “*I have done supervisions in March this year, but not for a long time before and staff have not had an appraisal”.* Roedd cofnodion personél dau aelod o'r staff y gwnaethom eu darllen yn cadarnhau hyn. Mae'r rheolwr wedi datblygu matrics goruchwylio ac arfarnu y mae bellach wedi'i roi ar waith i ymdrin â'r mater hwn. Gan fod y rheolwr yn ymdrin â'r diffyg hwn, nodwyd y mater fel Maes i'w Wella a chaiff ei ystyried yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r staff gofal yn siarad yn gadarnhaol am eu profiad o weithio yng nghartref Brynhelyg ac maent yn meddu ar wybodaeth dda am y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn rhoi cymorth iddynt. Mae'r hyfforddiant a gânt yn ategu'r wybodaeth hon. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mynychu amrywiaeth o hyfforddiant a chafodd hyn ei gadarnhau yn y matrics hyfforddiant a welsom. Mae gweithdrefnau recriwtio da ar waith, ac roedd y cofnodion staff a welsom yn cynnwys y gwiriadau a'r cliriadau gofynnol.

Mae'r bobl a gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref yn canmol y tîm o staff a'r rheolwr, gan ddweud wrthym *“the care staff are very kind and helpful”, “I am being well looked after and the staff are friendly and caring”* ac *“I think the manager is very approachable and follows clinical instructions very well”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 66 | Nid oes gan yr Unigolyn Cyfrifol drosolwg digonol o'r gwasanaeth ac nid yw'n goruchwylio'r gwasanaeth yn ddigonol. | Newydd |
| 16 | Nid yw'r cofnodion gofal yn cael eu hadolygu o leiaf bob tri mis. Nid yw'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu cynlluniau gofal. | Heb Gyflawni |
| 43 | Mae'r mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar yn cael eu cynnal a'u cadw'n wael a gwelwyd eu bod yn fudr mewn rhai mannau. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Mae'r lolfa fach yn cael ei defnyddio fel stordy ac nid yw'n hygyrch i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar ddewisiadau'r unigolion o leoliadau i gwrdd â'u perthnasau, ffrindiau, gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref ac i gymdeithasu. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r staff gofal wedi cael sesiynau goruchwylio o leiaf bob tri mis nac arfarniad blynyddol. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/07/2023